# Y BIGWN

CYF. 29 RHIF 10 IONAWR 2018 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*

# Bwrlwm Stryd y Dyffryn





Hanes tud 10

## Golau Nadoligaidd Dinbych





**Yn y rhifyn hwn .....**

**Nid byd, byd heb wybodaeth**
**Gethin y dylunydd ffasiwn ifanc**
**Brwydr Catalwnia**
**Addunedau**

**Mae angen i BOB DIM fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn erbyn Dydd Gwener, Ionawr 19eg - Ar Werth Chwefror 3ydd, 2018**

# GOLYGYDDOL

Ychydig ddyddiau cyn ysgrifennu hwn bum mewn cyfarfod a drefnwyd gan swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg. Cyfarfod oedd o i gael adborth ynglŷn â phrofiadau pobl o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg. Holwyd a oeddem wedi cael profiadau gwael wrth ddelio gyda gwasanaethau cyhoeddus sydd yn dod yn uniongyrchol o fewn pwerau'r comisiynydd. Holwyd hefyd ynglŷn â'n profiadau gyda busnesau mawr fel y banciau a'r archfarchnadoedd. Nid oes gan y Comisiynydd bwerau i orfodi'r rhain i gydymffurfio a'r safonau iaith ond gall gael dylanwad. Un o brif negeseuon y swyddogion oedd yn bresennol oedd bod rhaid i ni gwyno os nad oeddem yn cael gwasanaeth teilwng. Pwysleisiwyd nad oedd raid i ni gwyno i'r corff perthnasol ein hunain os nad oeddem yn dymuno gwneud hynny. Roedd yn bosibl i ni gwyno yn uniongyrchol i'r Comisiynydd a byddai'r Comisiynydd a'i swyddogion yn ymdrin a'r mater ar ein rhan. Sylweddolais pa mo euog dwi o feddwl am gwyno ond peidio gwneud yn fwy aml na pheidio.

Un peth ydi cwyno am ddiffyg Cymreictod gwasanaethau cyhoeddus a busnesau mawr ond anos yw ymateb i ddiffyg ar ran grwpiau gwirfoddol. Ers dod yn Gynghorydd Tref dwi wedi dod yn fwy ymwybodol nag erioed o'r cyfoeth o grwpiau gwirfoddol sy'n trefnu gweithgareddau a digwyddiadau yn y dref. Eleni cafwyd mwy o ddigwyddiadau ar raddfa gweddol fawr nag erioed o'r blaen dwi'n credu. Does ond angen meddwl am Yr Ŵyl ganol Haf, y penwythnos drysau agored a dathliad 100 mlynedd Neuadd y Dref, yr ŵyl eirin ac ati. Dwi'n credu fod cyhoeddusrwydd rhain yn rhoi lle teilwng i'r Gymraeg a does dim ond canmoliaeth gen i o'r holl waith caled mae'r trefnwyr yn wneud i roi Dinbych ar y map fel tref yn llawn bwrlwm. Wedi dweud hynny sylwais fod y gweithgareddau eu hunain yn dueddol o fod yn ddigon Seisnig o ran iaith. Y cyflwyno yn Saesneg a'r rhan fwyaf o'r adloniant hefyd. Mae gennym gymaint o ddoniau yn y dyffryn ni ddylai y trefnwyr gael trafferth i ddod o hyd i berfformwyr Cymraeg. Cefais gyfle i sgwrsio ag ambell un o'r trefnwyr a'r ateb oedd nad oeddent yn gwybod sut i gael gafael ar berfformwyr Cymraeg a nad oedd siaradwyr Cymraeg ganddynt ar eu pwyllgorau. Bai pwy ydi hynny? Yn sicr mae peth bai ar y trefnwyr nad ydynt yn meddwl am ofyn i siaradwyr Cymraeg i ymuno a nhw ond mae'n debyg fod rhywfaint o fai arnom ninnau hefyd. Da o beth fyddai bod rhyw fath o drefn yn bodoli i wneud pethau'n haws i greu cysylltiadau rhwng siaradwyr Cymraeg a'r grwpiau gwirfoddol. Mae trafod wedi dechrau ynglŷn â'r ffordd orau o drefnu hyn. Gwyliwch am fwy o wybodaeth am hyn dros yr wythnosau nesaf.

Dyfrig

## Dyddiadur

17 eg Ionawr - Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws/Cymd. Ddiwylliadol - Sgwrs gan Eiri a Gaynor: 'Y Daith i Dubai'

26ain Ionawr – Cymdeithas Caledfryn - Gwaith ar lwyfannau nwy/olew – Mike Hughes

2il Chwefror – Y Gymdeithas Gymraeg – Eigra Lewis Roberts – Cefndir ei nofel Pry ar y wal

9ed Chwefror - Capel y Fron – Arwerthiant Addewidion ym Melin Brwcws

16eg Chwefror – Cymdeithas Caledfryn - Teithiau mewn lluniau – Aneurin Phillips

23ain Mawrth – Cymdeithas Caledfryn - Cinio Blynyddol – Geraint Lövgreen

27ain Ebrill 27ain – Gwefr heb Wifrau -Ioan Talfryn ar Syr T. H. Parry-Williams

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones
01745 812214
russelljones9@talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
Berwyn Roberts (812672)
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Catrin Warren (814675)
Ceredig Gwynn (815701)
Ruth Williams (812822)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
Bryn Llys, 10 Llain y Capel
Dinbych LL16 3TU
01745 814497
ebost:
ed321@btinternet.com


**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Ffion Whitham (01824 704642)
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk



MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# Nid byd, byd heb wybodaeth

Yr oedd mynychu'r Ysgol Sirol yn Lôn Ganol am y tro cyntaf yn dipyn o sioc i bob un ohonom. Dyma ni wedi gadael agosatrwydd a chynhesrwydd ein hysgolion cynradd am y tro cyntaf ac ar ben hynny, onid oedd bechgyn mawr y chweched dosbarth yn un ar bymtheg oed a mwy, a rhai ohonynt yn siafio ac, yn ddistaw bach yn ysmygu! Efallai mai'r sioc fwyaf oedd cyfarfod a'r athrawon am y tro cyntaf – wedi inni glywed ymlaen llaw pob math o straeon amdanynt.

Un yr oedd gennyf edmygedd mawr ohono o'r cyfarfyddiad cyntaf, oedd Mr J.W.Harding. 'Doedd Jim Harding ddim yn Gymro – hanai o ardal Crosby, ger Lerpwl ac fe ddaeth i Ddinbych fel pennaeth ar yr adran Fathemateg. Heb unrhyw amheuaeth, ef oedd yr athro gorau welais i erioed, yr oedd ganddo'r ddawn i wneud hyd yn oed Algebra a Geometreg yn ddiddorol ac yn ddealladwy. Onid oedd Mathonwy Hughes wrth sôn am ei gyfnod yn Ysgol Clynnog yn rhyfeddu wrth weld ei bod hi'n bosibl gwneud syms â llythrennau! Ar ben hyn, dangosodd Harding ei fod yn garedig ac yn oddefgar ond gyda disgyblaeth lem.

Gan fy mod yn arfer â derbyn adroddiadau gweddol dda o'r ysgol, yr oedd Taid bob amser yn rhoi chwe cheiniog i mi fel cydnabyddiaeth o'm hymdrechion. Unwaith, pan oeddwn yn y pumed dosbarth, cefais farciau arbennig o dda ym Mathemateg, a Harding, gan feddwl ei fod yn fy nghanmol, yn ysgrifennu gyferbyn â'r marciau yn Saesneg 'The papers were not too difficult for him'. Rhedais adref nerth fy nhraed a dangos yr adroddiad i Taid gan ddisgwyl o leiaf swllt y tro hwn. Gan fod Taid, fel llawer o'i gyfoedion bryd hynny yn uniaith Gymraeg, gofynnodd i Nain, 'Beth mae o'n ei ddeud Sarah?'. Atebodd Nain, hithau'n weddol gyfarwydd a'r Saesneg am ei bod, pan yn ifanc, yn forwyn ym Mhenbedw, 'Deud mae o John Morus nad oedd y gwaith yn anodd'. Er mawr siom, ni dderbyniais yr un ddimeu goch ganddo. Bu peth amser cyn i mi faddau i Harding.

Un peth arall amdano. Tueddai wrth gerdded i rolio o un ochr i'r llall, yn union fel morwr ac fe'i bedyddiwyd gyda'r llysenw Jack Tar. Camp go glyfar pan ddaeth ei fab – un braidd yn eiddil – i'r ysgol a'i lysenwi'n Tar's son, sef Tarzan.



Llun o'r ysgol newydd yn Lôn Ganol pan agorwyd hi'n swyddogol gan Mrs Thomas Gee o Lerpwl, Dydd Iau, Mehefin 25ain, 1903

Flynyddoedd wedyn, a minnau wedi hen ymadael â'r ysgol, daeth neges ar frys gan gyfaill bod Mrs Harding ar goll a bod nifer o ddynion allan yn chwilio amdani. Ymunais â hwy, ac ymhen amser, er mawr loes, mi drawais ar ei chorff yn Afon Ystrad rhwng Y Felin Ganol a'r Brwcws. Y diwrnod canlynol daeth Jim Harding druan i ddrws ffrynt fy nghartref gydag anrheg a cherdyn o ddiolch. Dyna'r math o ddyn ydoedd.

Cymeriad arall o blith yr athrawon oedd Stanley Jones, neu Stan fel yr adnabyddid o orau. Yn enedigol o Ferthyr Tudfil, a gyda'r Stan arall, sef Stan Ress o ardal Llanelli a hefyd W.A.Evans y Prifathro yn sicrhau cynrychiolaeth amlwg o'r Hwntws ar y staff. Fe fuon i yn hir yn yr ysgol cyn sylweddoli bod Stan Jones yn Gymro Cymraeg, hyn am ei fod wedi ymddangos yng Nghapel y Bedyddwyr un bore Sul i arwain y gwasanaeth.

Pennaeth yr adran Hanes oedd Stan, ac yn y dosbarth yr oedd yn hynod o ddiddorol. Gan ei fod yn aml yn hoffi lliwio'i wersi gyda storïau – dychmygol, llawer ohonynt – peth cymharol hawdd oedd i ni ei swcro i'r cyfeiriad yna ar ddechrau gwers oedd wedyn yn datblygu'n hanner awr o fwynhad pur. Er mai ffeithiau hanesyddol – dyddiadau ac yn y blaen – oedd yn bwysig iddo, eto yr oedd taclusrwydd unrhyw gyflwyniad o waith hefyd yn ofynnol. Arferai farcio traethawd fel 7 + 3, sef saith marc am y cynnwys a thri am y llawysgrifen. Cael cyfanswm o 7 allan o 10 oedd yn ddigon i osgoi cosbedigaeth ond 'doedd hyd yn oed 7 +1, sef cyfanswm o 8 ddim yn dderbyniol ganddo, ond fe wnai 5 + 2 y tro!

Gan fod nifer o'r athrawon yn byw yn weddol agos i'r ysgol – Stan yn Canolfryn, Stryd y Dyffryn, doedd dim angen modur arnynt. Yr unig un, a rhaid cofio yn

sir ddinbych denbighshire County Council
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

ystod y rhyfel yr oedd petrol wedi'i ddogni, yr oedd Stan yn berchen ar glamp o fodur mawr, hen ffasiwn a swnllyd. Efallai mai ei aelodaeth o'r A.R.P. (wardeniaid) oedd yn caniatau'r moethusrwydd yma.

Diddordeb arbennig gan Stan oedd yr Ysgol Sul. Deallaf ei fod wedi cyflawni ymchwil manwl ar y testun ar gyfer ei M.A. ac yr oedd, yn ôl y disgwyl yn athro effeithiol a chydwybodol yn Ysgol Sul y Capel Mawr.

Atgof arall sydd gennyf o Stan yw iddo ddweud wrthym yn ystod gwers, yntau newydd gwblhau sesiwn gyda'r chweched dosbarth, mai gan y diweddar Eric Griffiths, mab yr efail Nantglyn oedd y ffeithiau hanesyddol ond gan Ronwy Rogers, sy'n dal yn ein plith, oedd y gallu i gyflwyno gwaith.

Wel, dyna ddau o gymeriadau'r staff. Yn sicr bendant un arall o'r dosbarth yma oedd y Parch. Edward Ellis Jones, neu Ned, fel yr adnabyddid ef orau. Offeiriad gyda'r Eglwys Sefydliedig oedd Ned, ac ar y Suliau ef oedd yn arfer gofalu am y gwasanaethau yn Sant Andreas, yr eglwys fach tô sinc ar ganol Stryd Henllan.

Gwisgai goler gron bob amser yn yr ysgol tra'n dysgu Lladin a Chymraeg. Gan mai dim ond llond dwrn o'r disgyblion oedd yn dewis astudio Lladin – yn sicr doeddwn i ddim yn un ohonynt – a chan fod llawer o'r plant o'r wlad yn ddisgyblion yn yr ysgol, yr oedd y mwyafrif llethol yn mynychu'r dosbarthiadau Cymraeg. Deuai Ned i mewn i bob gwers gan wisgo gwên fel giât – hyn heb i chwi wybod pa fath o dymer oedd arno. I bwysleisio unrhyw bwynt, ei arferiad oedd dyrnu'r ddesg o'i flaen gyda pha lyfr bynnag oedd wrth law. Pan fyddai'n gwylltio efo plentyn, y gair cyntaf i ddod o'i enau oedd HOTTENTOT. Yn ôl yr arfer bryd hynny, dysgid peth o'r gwaith drwy'r Saesneg - doedd hyn ddim yn gwneud llawer o synnwyr i lawer ohonom. Eto i gyd, fel gadwodd ddisgyblaeth go lem arnom gan amlaf wrth floeddio ond nid peth anghyffredin oedd derbyn clustan ganddo.

Yn ystod yr haf, a chan ei fod yn byw gyferbyn â chefn yr ysgol, un o'i ddyletswyddau ar fore Sadwrn oedd dyfarnu yn y gemau criced rhyng-ysgolion, hyn er nad oedd ganddo unrhyw ddiddordeb yn y gêm a dim clem am y rheolau. Yn aml iawn byddai'n dadlau'n frwd ar bwynt eithaf manwl gyda chynrychiolydd y gwrthwynebwyr. Un stori fythgofiadwy amdano oedd iddo, wrth ymateb i apêl gan un o'r bowlwyr, ddyfarnu gan edrych i'r gofod 'No that's not a Spitfire, it's a Hurricane'.

Ond, heb unrhyw amheuaeth, y cymeriad amlycaf ohonynt oedd y pen dyn ei hun – William Abraham Evans, M.C., M.Sc., M.A. Dyna i chi un arall o dylwyth y de, o ardal Abertawe. Yr oedd ei lysenw yntau yn gwbwl arwyddocaol – Boss, ac ym mhob ystyr o'r gair hwnnw, ef oedd yr awdurdod pennaf yn y sefydliad.

Bryd hynny, neuadd yr ysgol oedd hen gapel Bodawen ar Lôn Bostws. Pob bore, wedi i'r disgyblion sefyll yn eu llefydd a'r athrawon yn eu hwynebu o'r llwyfan, yn union ar ganiad naw o'r gloch y bore, byddai distawrwydd llethol yn mygu pob sŵn, sibrwd a symudiad a dim ond cerddediad pendant Boss i'w glywed ar y grafel o gyfeiriad y llwybr y tu allan. Yn eiddil o gorff ac yn gafael yn dynn yn ei ŵn carpiog, gyda phawb yn gwbl dawel, cerddai'n bwrpasol at y ddarllenfa. Yn ei lais cras undonnog, ymlwybrai drwy'r gwasanaeth yn gwbl awtomatig – yr unig amser iddo ddangos elfen o emosiwn oedd ar Dachwedd 11eg, Dydd y Cofio, pan fyddai'n darllen enwau'r cyn-ddisgyblion oedd wedi eu lladd. Gan ei fod yntau, yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf wedi ennill y Groes Filitaraidd am ddewrder tra'n dioddef effeithiau nwy gwenwynig a chanlyniadau hwnnw yn amlwg ar ei wyneb – yr oedd ei deimladau'n amlwg.

Dysgu Ffiseg drwy'r ysgol ynghŷd âg ychydig o Rifyddeg i'r dosbarthiadau isaf oedd ei gyfrifoldebau addysgol – oes 'na brifathrawon ysgolion uwchradd yn gwneud hynny y dyddiau yma, a heb gymorth ysgrifenyddes?

Disgyblaeth lem ym mhob ystyr o'r gair oedd ei nod ac yn sicr fe lwyddodd gant y cant. Yr oedd cael eich anfon i'w ystafell am gambyhafio yn ddedfryd rhywbeth yn debyg i gerdded at eich dienyddiad. Wedi cyrraedd yno, bachwyd eich sylw gan yr onnen gnotiog orweddai mor fygythiol ar flaen ei ddesg. Wedi eiliad neu ddau, dim mwy, i wrando ar eich esboniad am y drosedd, yn ddieithriad y peth nesaf oedd ei orchymyn, 'Bend'. Does dim rhaid i mi egluro beth ddigwyddai nesaf ond yr oedd olion y gosbedigaeth yno am wythnosau. Bu rhai o'r bechgyn mwyaf pechadurus (heb enwi neb) yn ymffrostio yn y cyfanswm o streipiau yr oeddynt wedi eu dioddef.

Er nad oedd yn berson agos-at-rywun, yn ystod f'amser i yn yr ysgol, bu gwahaniaeth sylweddol wedi iddo ymddeol. Gan fod wal ei ardd gefn yn ffinio â'r cae criced yn Ffordd Ystrad, yn aml iawn byddai'n pwyso'i benelinau arni, a'i getyn yn ei geg, a sgwrsio â phwy bynnag âi heibio – minnau weithiau.

Tŷ prysur iawn oedd Oaklands, Ffordd Rhuthun – WA yn rhedeg ysgol, yn mynychu cyfarfodydd Rotari, yn Ynad Heddwch ac yn ddiacon yn Nghapel Lôn Swan. Ymhen amser aeth yn aelod o Gyngor Sir Ddinbych – a Mrs Evans yn weithgar gyda'r W.V.S. a chymdeithasau tebyg, tra'r oedd eu hunig blentyn Morton yn feddyg teulu yn y dref.

Wel dyna i chi bedwarawd, pedwar athro o'r hen deip – yn gydwybodol, yn weithgar ac yn gwbl ddiffuant. Cofiwch yr oedd eraill yno o'r un mowld – J.W.Askew (Cemeg); O.H.Tordoff (Daearyddiaeth); a Stan Rees (Saesneg). Dewch yn ôl, mae eich hangen ddywedwn i.

R.M. (Bobi) Owen

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

**Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH**
**Ffôn: 01745 812935**
**Ffacs : 01745 817303**
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com

**Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW**
**Ffôn: 01745 827777**
**Ffacs : 01745 827750**
E: rwroberts.abergele@gmail.com

**www.rwrobertsandson.co.uk**

Golden Charter

# Gethin y dylunydd ffasiwn ifanc



Nôd dylunydd ifanc dawnus o Ddinbych yw creu argraff ar y farchnad ffasiwn moethus gyda'i ddewis newydd trawiadol o sgarffiau sidan wedi'u gwehyddu'n arbennig.
Dywed Gethin Ceidiog Hughes ei fod eisoes wedi cael ymateb ffafriol iawn gan ddarpar gwsmeriaid a'i fwriad yn awr yw sicrhau cytundebau ariannol proffidiol gyda boutiques blaenllaw i arddangos y sgarffiau mewn siopau ar draws y Deyrnas Unedig.
Mae Gethin, 25 oed, a gwblhaodd ei MA yn Ysgol Gelf a Dylunio enwog Caerdydd gan ennill enw rhagorol i'w hun fel ffotograffydd ac argraffydd, wedi treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn gweithio ar batrymau ar gyfer sgarffiau merched sy'n seiliedig ar waith yr arlunydd eiconig o Rwsia, Kazimir Malevich.
Ac mae wedi troi at felin wehyddu sidan draddodiadol yn Halifax, Gorllewin Swydd Efrog, er mwyn cynhyrchu ac argraffu'r sgarffiau yn barod ar gyfer y siopau.
Dywed Gethin, sy'n gyn-ddisgybl yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy: "Ers fy nyddiau yn astudio yng Nghaerdydd, rwyf wedi cael fy ysbrydoli gan baentiad Malevich o 1915, Sgwâr Du.
"Roedd Malevich yn un o arloeswyr arlunio haniaethol geometrig, ac mi ddywedodd mai wyneb celf newydd oedd y paentiad... siâp cyntaf creadigaeth bur, ac mae'n sicr wedi cael effaith greadigol arnafi.
"Mae'r chwe chynllun ar gyfer y sgarffiau, sy'n cael eu marchnata gennyf o dan enw brand Wilding, sef enw canol fy mam, yn deillio o'r paentiad ac yn amrywiadau ar yr un thema o sgwariau du a gwyn.
"Ar ôl cynhyrchu'r dyluniadau, mi wnes i weithio gyda melin wehyddu draddodiadol yn Halifax.
"Mae ansawdd eu gwaith yn eithriadol ac yn y gorffennol maent wedi cynhyrchu canopïau ar gyfer Palas Hampton Court a Thŵr Llundain.
"Mae fy sgarffiau'n cael eu gwehyddu gan ddefnyddio techneg a elwir yn blaen dwbl, sy'n golygu bod positif y patrwm wedi'i wehyddu ar un ochr tra bod delwedd negyddol y patrwm yn ymddangos ar yr ochr arall. O ganlyniad, mae'n gwneud y sgarff yn fwy diddorol gan eich bod mewn gwirionedd yn cael dau ddyluniad ar un darn o sidan."
Ychwanegodd Gethin: "Rwy'n anelu at ochr foethus y farchnad a phris gwerthu'r sgarffiau fydd £200, sy'n swnio'n ddrud ond sy'n rhesymol o ystyried fy mod yn defnyddio'r sidan gorau i'w gwneud.
"Mae pob sgarff yn cael ei golchi a'i gorffen yn unigol â llaw gyda gofal mawr er mwyn cael y gorau o'r deunydd moethus. Mae hyn yn sicrhau fy mod yn darparu sgarff o ansawdd arbennig iawn, gan ddefnyddio dulliau traddodiadol sydd ar yr un pryd yn cynnig dyluniad trawiadol a chyfoes.
"Mae'r sgarffiau eisoes yn cael eu harddangos yn siop Canolfan Grefftau Rhuthun ac ar hyn o bryd rwy'n trafod cytundebau posibl gyda nifer o boutiques moethus annibynnol. Fy nôd yn y pen draw yw gallu eu gwerthu ledled y DU.
"Mae pethau wedi bod yn mynd yn dda iawn ac rwyf wedi cael llawer o ymateb cadarnhaol hyd yma.
"Rwy'n artist amlddisgyblaethol ac rwy'n bwriadu datblygu amrediad o sgarffiau a dod â mwy o gynnyrch allan o dan frand Wilding, gan gynnwys dillad i ferched a dynion, yn ogystal â phrintiadau."
Treuliodd Gethin yr haf yn hyfforddi gydag artistiaid ac argraffwyr fel rhan o gynllun Ysgoloriaethau Profi yn y Ganolfan Argraffu Ranbarthol sy'n rhan o Goleg Cambria yn Wrecsam.
Ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio ar sicrhau bod ei sgarffiau hynod yn llwyddiant gyda phrynwyr.
"Mae'n golygu mwy na chreu'r patrymau a goruchwylio eu cynhyrchu," meddai.
"Rwyf hefyd yn tynnu ar yr ystod o sgiliau a ddysgais fel rhan o'm cwrs MA yng Nghaerdydd o dan fentoriaeth Dr Stephen Thompson a wnaeth fy helpu i ddatblygu fy syniadau a'm hathroniaeth.
Ym myd ffotograffiaeth, mae Gethin wedi gweithio gyda phrif hyrwyddwyr a gŵyliau cerddorol mawr Caerdydd, a roddodd gyfle iddo dynnu ffotograffau lu o DJs rhyngwladol a phobl amlwg ym myd cerddoriaeth, gan gynnwys y cynhyrchydd bas a drwm enwog Goldie.
Mae enghreifftiau o waith cyffrous Gethin wedi cael eu cyhoeddi yn Complex Magazine, Drum & Bass Arena, Wales Online, BBC Cymru a hefyd mewn papurau newydd rhanbarthol.
Yn 2015, cynhaliodd ei arddangosfa ffotograffig gyntaf yng Nghaerdydd ac arweiniodd y llwyddiant hynny at brosiectau arbennig eraill, gan gynnwys gweithio yng Ngŵyl Sunfall yn Llundain a chydweithredu gyda llu o artistiaid eraill, gan gynnwys y cynhyrchydd cerdd o Fryste, Dr Meaker.
I wybod mwy ewch i www.wildingism.com



# Brwydr Catalwnia

Ar ddechrau blwyddyn newydd daw'r amser i hel atgofion am y deuddeg mis diwethaf gan fyfyrio ar uchafbwyntiau'r flwyddyn. Heb amheuaeth un o uchafbwyntiau 2017 i mi oedd fy nhaith i Barcelona dros gyfnod refferendwm annibyniaeth Catalwnia gydag aelodau eraill o Plaid Ifanc. Hoffwn ddweud nad ar chwarae bach y penderfynais archebu fy nhocyn awyren i Barcelona. Pan ddaeth y cynnig ryw nos Sadwrn gwlyb ym mis Gorffennaf, meddwl am ychydig o ddiwrnodau yn yr haul yn dathlu gwlad fach yn torri'n rhydd o gadwynau gwlad fwy oedd fy nghymhelliant. Yn amlwg nid oeddwn, a hithau'n 2017, wedi ystyried y posibilrwydd o'r fath ymateb gan Sbaen. Gellir honni mai hon yw un o'r refferenda mwyaf dadleuol yn hanes diweddar Ewrop. Mae rhai yn dadlau ynghylch dilysrwydd y refferendwm, ac os oedd hi'n gyfreithlon gan fod cyfansoddiad Sbaen yn datgan nad yw Sbaen yn gallu cael ei rhannu, ac mai un wlad yw hi. Wrth i'r refferendwm agosáu arestiwyd swyddogion o Lywodraeth Catalwnia ac fe drefnwyd cyrchoedd gan y Guardia Civil ar swyddfeydd y pleidiau sydd o blaid annibyniaeth i gymryd unrhyw ohebiaeth yn hysbysebu'r refferendwm yn ogystal â blychau pleidleisio. Yn bersonol rwyf yn credu mewn rhyddid a chydraddoldeb ac fel llywodraeth sy'n honni eu bod yn ddemocrataidd teimlais fod llywodraeth Sbaen yn gwneud cam enfawr â'r Catalwniaid ac yn anwybyddu hawl y bobl i benderfynu ar eu dyfodol. Yng Nghymru daeth mwy a mwy o erthyglau i'r fei yn y wasg ac ar wefannau cymdeithasol yn adrodd hanes y gwrthdaro tanbaid a'r rhwyg gwleidyddol amlwg oedd yno, ac er derbyn negeseuon gan deulu a pherthnasau yn mynegi eu pryder, fe benderfynais i a chriw o aelodau Plaid Ifanc i fwrw ymlaen gyda'r daith i Barcelona.

Yn hynod annisgwyl, un o uchafbwyntiau'r daith ei hun oedd y rali enfawr yn Placa d'Espanya deuddydd cyn y diwrnod mawr. Wrth i'n criw bach ni o Fangor gyrraedd y sgwâr yn ein crysau 'Visca Catalunya' a'n baneri lliwgar cefais fy syfrdanu wrth weld y prysurdeb lloerig oedd yn ein disgwyl. Roedd dros ddeg mil o bobl wedi ymgynnull, nid yn unig y Catalwniaid a'r Cymry oedd yno ond cefnogwyr o'r Alban, o Falencia, o Wlad Belg ac o Lydaw. Nid rali gyffredin mo hon, roedd yna gerddoriaeth llawn rhythm a bwrlwm, gyda pherfformwyr byw yn canu ar nerth eu llais wrth i bawb yn y gynulleidfa ddawnsio, gweiddi a chwifio baneri. Cafwyd areithiau angerddol gan aelodau pleidiau Catalwnia parthed y refferendwm, nid oedd pob unigolyn oedd ar y llwyfan o blaid annibyniaeth ond roedd pob un o blaid democratiaeth, roedd y refferendwm bellach yn fwy na breuddwyd cenedlaetholgar o hunanlywodraeth. Dau beth gwahanol yw cenedl a gwladwriaeth ac nid yw un wladwriaeth yn golygu mai un genedl sydd yno. Roedd yn amlwg i mi mai brwydr oedd hon i amddiffyn eu hawliau dynol, yr hawl sylfaenol o benderfynu ar ddyfodol y wlad, eu pobl a'u plant. Roedd teimladau'n eirias a neges Catalwnia'n glir: roedd yn amser i godi llais yn erbyn y drefn .

Daeth y dydd, y 1af o Hydref 2017, ac wedi cynnwrf a chyffro'r nos Wener yn y rali, doedd dim wedi fy mharatoi ar gyfer llonyddwch y bore ar ddiwrnod y bleidlais. Roedd y ddinas yn wag ac yn anial, y Catalwniaid yn y gorsafoedd pleidleisio ers oriau man y bore, os nad ers y noson gynt, yn gwarchod neu yn disgwyl mewn ciwiau hirfaith oedd yn amgylchynu'r adeiladau dwywaith neu dair yn barod i roi croes ar ddarn o bapur. Dwi'n cofio siarad gyda rhai oedd yn aros i fwrw pleidlais ac meddai un ddynes gyda'i llais crynedig 'we only want to vote'. Roedd fy nghalon i'n gwaedu drostynt wrth iddyn nhw geisio cyfiawnhau eu hawl i ddweud 'ia' neu 'na'. Buom ni'n lwcus iawn wrth ymdeithio trwy'r ddinas yn ymweld â'r gorsafoedd pleidleisio na welsom ni yn uniongyrchol y trais aflan yn erbyn y Catalwniaid. Amhosib oedd osgoi cael ein syfrdanu gan y lluniau a'r clipiau fideo oedd yn



Maiwenn Berry gyda chriw Plaid Ifanc ym Marcelona



cyrraedd o Barcelona a rhannau eraill o Gatalwnia yn dangos y Guardia Civil yn sathru, yn taro, yn gafael yng walltiau'r hen a'r ifanc ac yn eu hyrddio o'r neilltu. Yn ôl llywodraeth Catalwnia fe gafodd 844 o bobl eu hanafu, tra bod barnwr o Barcelona wedi datgan mai 218 yw'r ffigwr cywir. Naill ffordd neu'r llall roedd nifer o anafiadau yn ormod o lawer. Anhygoel oedd clywed am y dinasyddion hynny oedd wedi cael eu trin mor eithafol tu allan i orsafoedd pleidleisio yn penderfynu teithio i orsaf arall yn benderfynol o bleidleisio, yn ddigyfaddawd yn barod i wneud safiad ac aberthu dros un achos gwirioneddol bwysig.

Penderfyniad sy'n newid hanes, a daeth yr amser i ninnau wneud penderfyniad. Gwelsom fod cyfle i greu gwahaniaeth, i fod yn rhan o rywbeth mwy. Ysgogwyd ni gan hyn i ymuno ac aelodau eraill o Plaid Ifanc yn Vall d'Hebron er mwyn gwarchod gorsaf ar gyrion y ddinas. Yno roedd rhaid eistedd ar risiau o flaen orsaf mewn rhesi fel baricêd dynol gyda giatiau mawr haearn o'n blaenau ni gyda llenni metel, estyllod pren, weiren bigog, a bob math o bethau i gryfhau'r fynedfa. Cynyddodd y tensiwn wrth glywed fod gorsafoedd cyfagos eisoes wedi derbyn ymweliad gan Heddlu Sbaen. Y peryg oedd y bysa'r heddlu yn penderfynu ymddangos wedi i'r pleidleisio orffen er mwyn dinistrio cymaint o bleidleisiau â phosib. Roedd yr awr rhwng wyth o'r gloch a naw o'r gloch yn annioddefol gyda nerfusrwydd y Catalwniaid yn amlwg yn y distawrwydd llethol. Gyda chriw o Gymru yno, penderfynwyd cynnig cysur a gobaith iddynt drwy ganu Calon Lân, gwerthfawrogwyd y neges ein bod ni yno, yn sefyll ochr yn ochr ag yn eu cefnogi, ac i ni'r Cymry roedd yn derfyn iasol i ddiwrnod bythgofiadwy.

Cymerodd dros dwy filiwn o bobl ran yn y refferendwm. Pleidleisiodd dros 92% o'r bobl hyn o blaid annibyniaeth. Yn ôl ffigyrau swyddogol Sbaen 43% o'r rheiny oedd yn gymwys i bleidleisio ddaru fwrw eu pleidlais ond heb amheuaeth gellir dadlau bod y ffigwr hwn mewn gwirionedd yn llawer iawn uwch, gan fod nifer uchel o bleidleisiau wedi eu dinistrio gan y Guardia Civil. Os yw llywodraeth Sbaen yn hyderus fod pobl Catalwnia yn dymuno bod yn rhan o wladwriaeth Sbaen, pam gwrthod refferendwm cyfreithiol gyda pleidleisio di-rwystr wedi ymgyrch deg yn cyflwyno dwy ochr y ddadl?



Erbyn y bydd Y Bigwn ar werth bydd etholiad wedi bod yn Nghatalwnia a bydd y bennod nesaf o'r hanes wedi dechrau. Visca Catalunya!

Maiwenn Berry

**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

DBP
Home Improvements N.Wales

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 815555**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

# ADDUNEDAU

Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch gan fy mod wedi methu manteisio ar y cyfle y tro diwethaf i ddymuno Nadolig Llawen i chi.

Mae hi'n arferiad gan golofnwyr o fri i amlinellu'u haddunedau yn ystod y cyfnod hwn.

Wel, gan nad ydw i'n o'r brîd hwnnw, yn hytrach na gwneud hynny rydwi am gyflwyno i chi yr addunedau yr hoffwn weld eraill yn gosod iddyn nhw eu hunain.

Yn gyntaf, rydwi am droi fy sylw at fyd actio ar y teledu. Os gwelwch yn dda actorion wnewch chi addunedu i roi gorau i'r arferiad gwirion o sibrwd yn yddfol eich llinellau.

Dydwi ddim yn drwm fy nghlyw. Yn wir, mae gweddill y teulu yn d'eud mai dewis yr hyn rydwi am ei glywed ydy' fy nhueddiad i.

Eto i gyd, wrth wylio dramâu ar y teledu – yn y Gymraeg, Saesneg ac "American" – rydwi'n colli llinellau ynghanol rhyw fwmblan, ac yn aml mae rheini yn rhai pwysig.

Does dim pwrpas ceisio darllen gwefusau. Dydy rhai actorion ddim yn agor eu cegau wrth siarad.

Yn aml, chawn ni ddim gweld wyneb yr actor wrth iddo siarad. O leiaf fe fyddai hynny o bosib' yn awgrymu'r teimlad tu ôl i'r geiriau.

Fe roddais gorau i wylio'r gyfres Saesneg **Taboo** oherwydd hyn. Rydwi wedi pydru ymlaen i wylio **Un Bore Mercher** er gwaethaf tueddiad ychwanegol gan ambell actor i siarad fel pe bai yn ceisio dal trên.

Acen ddieithr ydy'r bwgan, meddech chi. Nage wir. Fe ddeallais i bob gair a ynganodd y ferch gydag acen Wyddelig yn **Un Bore Mercher**.

Ai bai'r cyfarwyddwr yn hytrach na'r actor ydy' hyn oll? Efallai y gall rhai ohonoch sydd yn fwy hyddysg yn y pethau hyn fy ngoleuo i.

Pwy bynnag sydd yn gyfrifol, plîs, plîs, wnewch chi addunedu i newid eich dull o actio.

Yn ail, hoffwn weld gwleidyddion o bob plaid yn addunedu i ateb cwestiynau yn glir a phendant yn hytrach na malu awyr drwy atgynhyrchu'r datganiadiau gwag a luniwyd ymlaen llaw ar gyfer pob achlysur.

Byddwch yn onest wleidyddion. Dywedwch, " Mae'n ddrwg gen i fedra i ddim ateb y cwestiwn hwn" neu " Rydach chi'n gywir. Chawsom ni ddim pethau yn iawn yn y cyswllt hwn."

Cofiwch mae perffaith ryddid i chi dd'eud ie neu na, oes neu nac oes.

Does dim rhaid i chi ddefnyddio'r gair polisi na gweld bai ar y blaid a oedd mewn grym hanner can mlynedd yn ôl.

Ar hyn o bryd mae'r hyn a ddywedwch chi yn hynod o ddiflas ac yn gwneud i chi golli parch ar lawr gwlad.

Llai o spin, os gwelwch yn dda.

Yn drydydd, hoffwn weld rheolwyr timau pêl-droed yn gwneud adduned i brynu sbectol newydd, sbectol sydd yn eu galluogi i weld troseddau eu tîm nhw'u hunain yn ogystal â'r tîm arall.

D'eudwch am unwaith Mr Wenger, Mr Mourinho et al, " Fe fuon ni'n lwcus i beidio ag ildio cic gosb" yn hytrach na "Welis i ddim mo'r digwyddiad."

Byddai'n braf eich clywed yn d'eud - fel rhyw fath o gyfaddawd - bod eich gwrthwynebwyr yn well na chi ar y diwrnod.

Efallai byddech chi drwy hyn yn rhoi arweiniad i rai o'r cefnogwyr unllygeidiog - a berthyn i bob clwb - a hwythau yn eu tro yn gwerthfawrogi doniau aelodau o'r tîm arall. Pwy a ŵyr?

Ac yn olaf, hoffwn weld Donald Trump yn addunedu i beidio ag ymyrryd yn yr hyn a ddigwydd tu allan i'r Unol Daleithiau. Mae ganddo ddigon o waith ar ei ddwylo yn ei wlad ei hun.

A wel, medraf obeithio.

…………………………………….

Er ei fod bum neu chwe blynedd yn hŷn na ni byddai'n chwarae pêl - droed gyda ni, ac roedd o'n figlwr penigamp.

Miglwr oedd ein gair ni yn Arfon am y gallu i ddriblo gyda'r bêl, a doedd yna neb gwell na Ben am hynny.

Doedd o ddim yn gyflym, ond roedd hi'n amhosib' cael y bêl oddi arno. Roedd o'n symud fel llongwr o un goes i'r llall ar y ffordd goncrid tu allan i'r tai cyngor ym Methel.

Cymeriad tawel oedd o. Wnaeth o ddim chwarae i unrhyw dîm mawr na bach, ond pan oeddwn i'n naw oed roedd Ben yn dipyn o arwr gen i a gweddill yr hogia'.

Gan imi symud i fyw i Lanberis o fewn ychydig fisoedd, dwn i ddim beth a ddaeth ohono. Ymhle bu'n gweithio ac yn y blaen.

Ychydig ddyddiau yn ôl darllenais ei fod wedi'n gadael ni.

Llifodd yr atgofion yn ôl imi am y bêl ledr a brynwyd ar drip Ysgol Sul i'r Rhyl, ond na fu hir oes iddi gan iddi fynd i ganol y mieri tu ôl i'r gôl.

Y ffordd gul ohono o flaen Cremlyn oedd ein Wembley ni, a Ben oedd y boi.

**Stan Lyall**

J. H. & B. JONES
CIGYDD TEULU
Gwerthu PYSGOD hefyd
* Cig cartref
* Cig o ffermydd lleol
* Cig i'r rhewgell
92 Stryd y Dyffryn,
Dinbych
01745 812132



MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

## Newyddion o'r Cyngor Sir gan y Cynghorydd Glenn Swingler

Ar ddiwrnod y cyfrif nol yn mis Mai 2017 doeddwn i ddim yn meddwl bod yr holl waith caled o gerdded y strydoedd, curo ar ddrysau a rhannu taflenni yn mynd i ddwyn ffrwyth. Hyd at y diwedd un roedd y canlyniad yn ymddangos mor glos fel roeddwn wedi dechrau anobeithio. Yn y diwedd, ar ôl hir aros, roeddwn wrth fy modd i gael fy ethol fel aelod Plaid Cymru dros Dinbych Uchaf a Henllan. Fel bonws fe gefais fy ethol i Gyngor Tref Dinbych hefyd.



Ar ôl cwblhau llenwi tomen o ffurflenni a chael dyddiau lawer o hyfforddiant fe ddechreuais ddod i ddeall beth oedd gwaith cynghorydd. Cychwynnais trwy gynnal cyfarfodydd gyda uwch swyddogion o'r cyngor ac yn fuan fe sylweddolais bod pethau yn fwy tebygol o ddigwydd os roeddwn yn mynd a nhw allan ac yn cerdded gyda nhw o amgylch yr ardal. Rwyf hefyd yn mynd i gwrdd gyda grŵpiau a chymdeithasau o fewn fy ward ac yn ceisio mynychu cymaint o ddigwyddiadau cyhoeddus ac sy'n bosibl. Doeddwn erioed wedi sylwi sawl bore coffi sy'n cael eu cynnal yn y dref!

Yn dilyn y trafodaethau gyda uwch swyddogion y sir a dangos sawl diffyg iddynt wrth gerdded o gwmpas fe gefais fy synnu pam mor gyflym cafodd y gwaith o drwsio a thacluso safleoedd blêr eu gwneud a pa mor gyflym y daeth gweithwyr y sir i gasglu ysbwriel ac i dorri a thacluso'r coed ac ati.

Daeth llwyddiant cynnar arall o fod yn aelod o un o Bwyllgorau Craffu y Cyngor. Mater y bathodynnau glas ar gyfer parcio a oedd dan sylw ac fe dderbyniwyd fy nghynnig i ddyblu yr amser mae deiliaid bathodynnau glas yn cael parcio yn meysydd parcio y sir. Erbyn hyn mae'r mater yma wedi ei dderbyn fel polisi y Cyngor Sir ac mae pawb sydd a bathodyn glas yn mynd i elwa o'r newid. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen i weld hen floc o fflatiau yn fy ward yn cael eu dymchwel a cartrefi newydd ar gyfer pobl lleol yn cael eu codi ar y safle.

Mater agos iawn at fy nghalon fel cynghorydd yw medru rhoi cymorth i unigolion a theuluoedd o fewn fy ward. Mae'n syndod faint o bobl sydd yn cysylltu gyda mi pob wythnos ac mae'n rhoi boddhad mawr i mi os rwy'n medru bod o help iddynt.

Fel llywodraethwr Ysgol Pendref ac fel un sydd ar bwyllgor rheoli Prosiect Ieuenctid Dinbych rwy'n teimlo fy mod yn dod i ddeall mwy am y pethau sy'n digwydd yn ein tref a'r pethau sydd angen digwydd yma. Rwyf hefyd ar bwyllgor sy'n trafod sut mae gwella y ffordd mae'r Cyngor Sir yn cyfathrebu gyda trigolion. Fel aelod o Grŵp Diogelwch Dinbych, sy'n gweithio'n agos gyda'r heddlu, rydym yn canolbwyntio ar faterion diogelwch sy'n trwblu ein trigolion. Ar ben hyn mae llawer iawn mwy yn digwydd gan gynnwys gwaith y Cyngor Tref.

Rwy'n cael boddhad mawr o gynrychioli pobl Dinbych Uchaf a Henllan ac yn teimlo'r cyfrifoldeb yn fawr. Yr unig bethau sy'n fy ngwneud yn anhapus yw'r amser hir mae rhai pethau yn cymryd i'w gwneud ac hefyd yr adegau hynny pan nad oes ffordd o ddatrys rhyw broblem. Yng nghanol hyn i gyd rwy'n ymwybodol o'r angen i fwrw mlaen gyda parhau i ddysgu Cymraeg!



TE YN Y GRUG
Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk
01745 816576

Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482


VISAGE
Tŷ Harddwch
Nifer o wahanol driniaethau harddwch mewn amgylchedd moethus
Gwersi coluro, trin wyneb, dwylo a'r traed, wacsio, massage, estyniadau i'r ewinedd
Minffordd, Ffordd y Rhyl, Dinbych 01745 812215
Perchennog: Julie Howatson-Broster

siop siocled dinbych
01745 814864
RWAN YN DERBYN ARCHEBION:
PARTION PLANT, NOSWEITHIAU MWYTHAU I'R ARDDEGAU/OEDOLION A BUSNESAU
* Partion Mwythau o £99
* Partion Siocled o £125
* Nosweithiau i Oedolion a Busnesau o £150
I sicrhau dyddiad i'ch parti ffoniwch 01745 814864
neu ebostiwch mark@denbighchocolateshop.com
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN

# Hwyl diwrnod San Steffan


















Ifan Wood

















**Guthrie Jones a Jones** Cyfreithwyr

**Osian Roberts LL.B , Nansi Thirsk LL.B,**

**Dylan Edwards B.A.,LL.B**

**29 Ffordd Rhuthun, Dinbych LL16 3EH**

**Ffôn: 01745 814 817 dinbych@guthriejj.co.uk**

**GWASANAETH CYFREITHIOL CYFLAWN YN Y GYMRAEG**

**yn y Swyddfa neu Gartref**



# CYFARCHION



Penblwydd Hapus i Ifan yn 4 oed ar Ionawr 12fed. Llawer iawn o gariad oddi wrth Mam a Dad, Nain a Taid Dinbych, Nanny a Grandad Swindon a’r teulu i gyd. Xxx


**CEIR CLWYDIAN**



**Os ydych yn chwilio am**
***brisiau cystadleuol**
*** dewis heb ei ail**
*** gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol**

yna, galwch i’n gweld ar-



**FFORDD RHYL, DINBYCH**
**neu ffoniwch**
**01745 816720 / 07900555009**










Rhai o'r enillwyr
Tîm - Llion Edwards ac Ioan Jones, (Clwb Rygbi Dinbych)
Dynion - Gareth Owen, Llannefydd
Merched - Tina Hoyle, Henllan

## Bwrlwm Stryd y Dyffryn



Chwi "fore-godwyr" Dinbych, faint ohonoch, tybed, a welodd y ddwy olygfa hon ar Stryd y Dyffryn am saith o'r gloch y bore - y cyntaf ar ddydd Gwener, Rhagfyr 8ed gyda'r rhew a'r eira yn teyrnasu a phenderfynu ar rediad y ceir yn hytrach na'r gyrwyr.

'Roedd yr ail olygfa i'w gweld ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 12ed - dadlwytho anghenfil mawr yn ymyl meddygfa Beech House a oedd wedyn yn ymlusgo ar hyd Lôn Copner a'r Lôn Ganol i wneud ei waith o dynnu'r hen Ysgol Uwchradd yn ddarnau a'r safle'n barod at adeiladu'r Pentre Canol. Yn fuan wedyn daeth anghenfil arall a wedi hynny cyrhaeddodd cwt gwaith anferthol a oedd eisoes yn cael trafferth troi ar gornel Beech House.

Digon o bethau trawiadol yn digwydd ar Stryd y Dyffryn!!

Ceredig Gwynn



# Y Capeli

### Capel Brwcws.

Bore Sul, Tachwedd 19eg agorwyd yr Ysgol Sul gan Cari a George Cattell ac Alexandra Davies, ffrind Cari, eu neges oedd pwysigrwydd diolch. Yn ystod y gwasanaeth bu'r plant yn gorffen paratoi bocsys Nadolig elusen T4U.

Parch. Nesta Davies fu yn pregethu yn oedfa'r pnawn. Carolyn Thomas oedd yr organyddes.

Diolch i Lis Edwards, Rhian, Cari a George Cattell am fynd a 14 o focsys o'r Ysgol Sul i Gyffordd Llandudno, i ganolfan gasglu T4U, ar y nos Fawrth ganlynol.

Catrin Jones fu yn gyfrifol am y rhannau dechreuol yn yr Ysgol Sul, Tachwedd 26ain. Croesawyd y Parch. Glyn Thomas atom i oedfa'r prynhawn. Yr organyddes oedd Carolyn Thomas.

Ar y Sul cyntaf o fis Rhagfyr cynhaliwyd Oedfa'r Teulu dan arweiniad ein gweinidog y Parch. Andras Iago. Cawsom ymuno yn y Cymun Sanctaidd hefyd. Hyfryd oedd gweld cymaint wedi dod i'r gwasanaeth. Carolyn Thomas oedd wrth yr offeryn.

Oherwydd yr eira ni fu gwasanaethau ddydd Sul, Rhagfyr 10ed.

Dymuniadau Gorau ar gyfer y Flwyddyn Newydd i bawb.



Cari a George yn y ganolfan gasglu T4U



Rhai o blant yr Ysgol Sul gyda'r bocsys yn barod i fynd o'r capel

JWilliams BLAS DA

EICH CIGYDD LLEOL

124 Stryd y Dyffryn
Dinbych Ll16 3BS
01745 812585

Emyr Evans a'i Gwmni Cyf

Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333



Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900



Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk

JCB McHale Massey Ferguson Fendt Pottinger

## Y Capel Mawr a Seion

Bu'n rhaid gohirio'r gwasanaeth hwyrol ar nos Sul, Rhagfyr 10fed, oherwydd y tywydd garw a oedd wedi gorchuddio Dyffryn Clwyd gyda haenen drwchus o eira, a'i gwneud hi'n rhy beryglus i unrhyw un fentro i'r moddion..

Dyma'r tro cyntaf ers rhai blynyddoedd i'r tywydd ein trechu,

Cyn hynny cafwyd cwmni'r Parch. Nesta Davies ar fore Sul, Tachwedd 19. Mrs Catrin Warren oedd wrth yr organ.

Cynhaliwyd Bore Coffi ar y Sadwrn olaf o'r mis gyda'r elw tuag at Apêl Corwynt Cariad. Codwyd dros £150 a thrwy hynny llwyddwyd i gyrraedd y targed a osodwyd i bob eglwys gan y Cyfundeb, sef £14 yr aelod.

Y noson ganlynol cafwyd cwmni'r Parch. Glyn Thomas, Abergele, gyda Mrs Angharad Rhys, llywydd y mis, yn ei groesawu. Mrs Dorothy Rogers oedd yn cyfeilio.

Croesawyd ein gweinidog, y Parch. Ddr. Andras Iago, atom ar y bore Sul cyntaf o Ragfyr gan Mrs Nerys Ann Roberts, llywydd y mis. Yr organyddes oedd Mrs Doris Williams.

Llongyfarchwyd Mr a Mrs Tom Williams yn ddiweddar ar ddathlu priodas ddiemwnt, y trydydd pâr priod o'r eglwys i gyrraedd y garreg filltir nodedig hon. Hefyd llongyfarchwyd Mr Ronwy Rogers a Mrs Morfudd Edwards ar ddathlu'u pen blwydd yn 90 mlwydd oed.

## Aelwyd Capel Mawr

Dechreuwyd cyfarfod mis Tachwedd gan Freda Evans yn darllen cerdd Carneddog i'r Frigad Dân o hen lyfryn gyhoeddwyd ym 1901.

Croesawyd y wraig wadd gan Mair Jones. Roedd Nia Ritchie wedi dod atom i siarad am ei gwaith gyda'r Gwasanaeth Tân. Mae'n dod yn wreiddiol o Lanfihangel Glyn Myfyr, o deulu gweithgar iawn yn y gymuned.

Canolbwyntiodd yn bennaf ar yr ochr atal tân a chadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi, sydd mor bwysig. Roedd ganddi wahanol larymau tân gyda hi yn cynnwys un at y trwm eu clyw.

Diolchwyd i Nia gan Mair ac i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned.

Buom yn meddwl am y rhai sydd ddim yn dda ar hyn o bryd ac yn dymuno'r gorau iddynt.

Roedd hefyd angen llongyfarch Tom a Doris Williams, Ronwy Rogers a Morfudd Edwards (gweler uchod).

### Capel Y Fron

Nos Sul, Tachwedd 19eg cynhaliwyd Cymanfa Ganu i ddathlu 300 mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn. Yr oedd y cyfarfod wedi ei drefnu gan y Parch Nesta Davies, Cadeirydd Pwyllgor Cytun, Dinbych, gyda'r Parch Andras Iago yn rhoi hanes ei fywyd a'i hynodrwydd yn cyfansoddi yr holl emynau, ac yr oedd canu da iawn dan arweiniad Nesta Davies gan gynulleidfa deilwng iawn. Fe gawsom gyfraniad o ddwy emyn o'i eiddo gan Mrs Nerys Ann Roberts a Mr Ifor John Jones. Yr organyddes oedd Mrs Eiri Jones ac fe wnaeth Mrs Iona Edwards gyfeilio i'r unawdwyr.

Dydd Sul, Tachwedd 26ain yr oedd oedfa'r bore dan ofal y Parch Glyn Thomas, Abergele a Mrs Iona Edwards oedd yr organyddes. Yr oedd y gwasanaeth Nos Sul, Rhagfyr 3ydd yng nghwmni ein gweinidog. Oherwydd gerwindeb y tywydd a Mr Aled Lewis Evans ddim yn gallu mentro o Wrecsam penderfynwyd peidio cynnal oedfa bore Sul, Rhagfyr 10fed.

Yr ydym yn anfon ein cofion at yr aelodau sydd yn methu bod gyda ni yn y gwasanaethau ar y Sul ac yn dymuno pob bendith i'r holl aelodau ar gyfer 2018.

# Y Cymdeithasau

## Cymdeithas Flodau Dinbych a'r Cylch

**- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Diana Williams agorodd y cyfarfod drwy ddiolch i bawb am fod mor driw drwy gydol y flwyddyn a diolchodd yn arbennig i Felicity Cooksey am drefnu gosodiadau bob mis. Darllenodd Jenny Williams gofnodion cyfarfod y llynedd a chafwyd adroddiad y trysorydd gan Betty Parker am ein sefyllfa ariannol. Roedd bwffe wedi ei ddarparu ar ein cyfer hefyd – blasus iawn, ac yn ddiweddarach fe'n hysgogwyd ni gan Felicity i greu trefniant Nadoligaidd a fu'n bleser i ni i gyd. Diolchwyd iddi gan Doris Roberts.

Bydd y cyfarfod nesa ar y 6ed o Chwefor 2018 yn ysgoldy'r Capel Mawr am 7.30.

Margherita Jones



# Cymdeithas Caledfryn

Stan Lyall oedd gŵr gwadd mis Tachwedd ac 'Atgofion Hen Hac' oedd testun ei sgwrs.
Tra'n ddisgybl yn y chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, bu Stan yn sgwennu adroddiadau ar gemau pêl-droed yr ysgol yn ogystal â sgwennu adroddiadau o orsaf dywydd yr ysgol.
Hefyd, bu'n paratoi adroddiadau ar gemau tîm pêl-droed Llanberis, y tîm lleol. Yna yn 1967, ar ei flwyddyn olaf yn yr ysgol, gwireddodd freuddwyd a dod yn 'ddyn papur newydd' efo'r Herald yng Nghaernarfon.
Felly, dyma Stan yn gadael yr ysgol yn 18 oed gan ymuno â'r Herald oedd gyda 4 papur newydd yn cynnwys Yr Herald Cymraeg a Herald Môn gyda chylchrediad o 30,000 i gyd.
Un o jobsys cyntaf Stan oedd chwilio am straeon yn ninas Bangor a chyfle i ymweld â chanolfan ieuenctid Maesgeirchen am ambell i stori a chyfarfod rhai o weinidogion y ddinas fel Y Parch J. Gwilym Jones am stori arall.
Gwell oedd ganddo hel straeon ym mhentrefi Llanberis a Llanrug lle'r oedd ganddo ddigon o gysylltiadau ac yntau'n byw'n yn yr ardal.



Gwnai adroddiadau hefyd o Lys Ynadon Caernarfon a'r Fali a gwnai adroddiadau o Gyngor Sir Caernarfon – cyfarfodydd a allai lusgo ymlaen!!
Cafodd Stan bleser yn paratoi adroddiadau ar gemau pêl-droed o gynghreiriau lleol yr ardal oedd yn cynnwys timau fel Llechid Celts a Mountain Rangers. Ond mae'n cofio hefyd gemau 'mawr' fel Nantlle Vale v Caernarfon gyda'r lliwgar Orig Williams a Tarw Nefyn yn taclo'n galed – taclo oedd 'wythnos yn hwyr' ar adegau! Roedd Stan, wedyn, yn gorfod rhedeg i'r ciosg agosaf i hysbysu'r Liverpool Echo, y papur pinc a ddeuai allan ar nos Sadwrn, o'r sgôr a rhoi hanes y gêm dros y ffôn.
Gêmau mawr eraill oedd Man. City (tîm Joe Mercer) v Caernarfon Select a Chymru v Manchester United ar gae Ffordd Farrar ym Mangor gyda'i arwyr Best, Law a Charlton yn dangos eu doniau.
Soniodd hefyd am rai profiadau anodd yn rhoi hanes angladdau, yn enwedig angladdau plant a soniodd am y tyndra adeg yr Arwisgo yn 1969 ac yntau fel newyddiadurwr y tu allan yn y stryd yng Nghaernarfon diwrnod yr Arwisgiad.

Ond wedi 4 blynedd efo'r Herald, a hynny yng nghyfnod cyffrous y 60au., dyma Stan yn penderfynu gadael y byd newyddiadurol i ddilyn cwrs dysgu yn y Coleg Normal, Bangor a dod yn athro, maes o law, yn Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy.
Agorodd Stan gwr y llen ar fyd papur newydd yr Herald a hynny mewn sgwrs gartrefol, ddadlennol a diddorol.
Llywyddwyd y noson gan Gwyrfai ac yntau, fel Stan, yn hanu o Ddyffryn Peris ac yn cofio Stan a'r teulu yn y cyfnod cynnar.
Rhoddwyd croeso arbennig i Breian o Langynhafael gan Llifon ac fe gydymdeimlodd, ar ran pawb, â Dei Rich a oedd newydd golli ei frawd, Arwyn, yn ddisymwth.


Plaid Cymru | Party of Wales

**Llyr Gruffydd AC**



Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:

Llyr Gruffydd AC
69A Heol Clwyd
Rhuthun
LL15 1HN
01824 703593
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru

**Yn gweithio dros y gogledd**

@LlyrGruffydd

**www.llyrgruffydd.cymru**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales



Morgeisi
CARTREF
Mortgages

**Cyngor Morgais Di-Ffi**
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio

Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol

Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk

Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar

Bu’r cyfnod cyn y Nadolig yn brysur iawn yn yr Amgueddfa.



Ar Dachwedd 17eg, daeth Cliff Kearns a Clwyd Wynne i siarad â ni am lyfr newydd Cliff, ‘A Town at War – Denbigh and the Western Front’. Llyfr wedi ei seilio ar brofiadau ei dad, Joe, yn y Rhyfel Byd Cyntaf yw ond llyfr sy’n amlygu’r berthynas oedd rhwng Dinbych a Ffrynt y Gorllewin, er mor bell oedden nhw oddi wrth ei gilydd. Roedd Joseph Kearns yn newyddiadurwr dan hyfforddiant i’r Free Press ac ymunodd â’r Ffiwsilwyr Cymreig pan oedd yn 16 oed. Oherwydd ei sgiliau newyddiadurol a’i allu i ddefnyddio llaw-fer a chôd Morse cafodd ei anfon gyda’r Uwch-Swyddogion i safleodd blaen y brwydro. O fewn y flwyddyn, roedd wedi cael ei ladd. Cofnodir ei enw mewn dyfyniad o bapur y Free Press, Rhagfyr 4ydd, 1915, gyda 187 o feibion eraill yr ardal a laddwyd yn y Rhyfel Mawr.



Diolch i bawb a gefnogodd ein Bore Coffi ar Ragfyr 2ail. Codwyd dros £600 i MaryDei, Mind Dyffryn Clwyd a’r Amgueddfa.

**Autoclinic Glyn Evans**



Stâd Ddwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA
Atgyweiriadau damwain, gwaith adfer o safon, jig,
cyfleusterau crasu isel, gwasanaeth cyrchu 24 awr
**Ffôn:(01745) 815141**



‘Yr Ymgyrch am S4C’ oedd testun Angharad Tomos pan ymwelodd â’r Amgueddfa ar nos Wener, Tachwedd 24ain. Soniodd am ei phrofiad o gyrraedd Prifysgol Aberystwyth ar ganol ymgyrch Cymdeithas yr Iaith i gael sianel deledu Gymraeg i Gymru. Doedd ganddi ddim diddordeb yn y byd darlledu, ond gan fod Saunders Lewis wedi dweud mai’r “Teledu yw pennaf lleiddiad y Gymraeg” penderfynodd fod rhaid iddi hi ymuno â’r gweithredu. Ei thasg gyntaf, ar ôl bod yn y Brifysgol am bum niwrnod, oedd dringo mast teledu Crystal Palace yn Llundain a chael ei charcharu am bum niwrnod. Yn 1977 torrodd i mewn i drosglwyddydd teledu Winter Hill, Manceinion, ac arestiwyd hi gan yr Heddlu. Eu cwestiwn nhw iddi oedd, “Beth yw eich cysylltiad chi â’r IRA?” Ar ôl refferendwm 1979 penderfynodd Gwynfor Evans ymprydio at farwolaeth os na chai Cymru sianel Gymraeg a bu pobl Cymru yn gwrthod talu eu trwyddedau teledu. O’r herwydd penderfynodd Prif Weinidog San Steffan, Margaret Thatcher, ganiatáu sefydlu pedwaredd sianel a fyddai’n cynnwys rhaglenni Cymraeg. Cychwynnwyd S4C ar nos Wener, Tachwedd 1af, 1982, a mawr fu’r dathlu. Ond, erbyn heddiw, oherwydd y diffyg cynnydd sydd wedi dilyn y cwtogi arianol, mae’r ymgyrchu wedi ail -ddechrau, ac mae rhai yn gwrthod talu eu trwyddedau teledu unwaith eto. Maen nhw’n hawlio ei bod hi’n ‘hen bryd datganoli darlledu i Gymru’.



Evie yn mwynhau’r gweithgareddau i’r plant.

Dyma’r darlithiau nesaf yn ein cyfres ar gyfer y flwyddyn newydd:

Ionawr 19eg, “Creu Gemau”, gan John Clark.

Chwefror 16eg, “Darlledu yn yr 80au ar Radio Havana Cuba”, gan Lila Haines.

Mawrth 16eg, “Darlledu yng Nghymru”, gan Ifor ap Glyn. Darlith flynyddol David Edward Hughes fydd hon.

Ebrill 20fed, “Trasiedïau Morwrol yr ‘Ocean Monarch’ a’r ‘Lelia’”, gan Tony Griffiths a Keith Mountain.

Ebrill 27ain, darlith Gymraeg gan Ioan Talfryn ar Syr T. H. Parry-Williams.

Mae’r darlithiau yn cychwyn am 7.00 y.h. ac mae lluniaeth ysgafn i ddilyn. Croeso cynnes i bawb.

# Ysgol Twm o'r Nant

Mae mis Rhagfyr wedi bod yn fis prysur iawn yn Ysgol Twm o'r Nant. Cawsom ffair lwyddiannus iawn ar ddechrau'r mis, a daeth ymwelydd pwysig, sef Sion Corn, i'n gweld. Cafodd groeso mawr gan y plant ac mae ei restr o deganau i'w gwneud wedi cynyddu yn fawr. Gobeithio fyddan nhw i gyd yn barod ar gyfer ei ymweliad ar noswyl Nadolig! Roedd llu o stondinau ac roedd pob adran yn yr ysgol wedi bod yn brysur yn paratoi rhywbeth i'w werthu.



Ffair Twm o'r Nant yn brysur iawn!

Os buasech wedi galw i mewn i'r ysgol ym mis Rhagfyr, dwi'n siŵr y byddech wedi clywed llu o garolau yn cael eu canu. Bu'r plant yn brysur yn ymarfer a pherfformio eu sioeau a'u gwasanaethau Nadolig. Cafwyd sioeau arbennig gan blant Uned dan 5 ac Uned dan 7 a gwasanaeth hyfryd yn y Capel Mawr gan blant yr Uned dan 9 ac Uned dan 11. Diolch yn fawr iawn i'r holl blant ac i'r staff i gyd am eu gwaith caled o baratoi.

Efallai mai plant y Dosbarth Derbyn sydd ar fai ein bod ni wedi cael tywydd oer yn ddiweddar! Dyma'r dynion eira a'r plu eira yn paratoi at eu sioe Nadolig



Mae plant yr Uned dan 5 wedi bod yn cael llawer o hwyl yn gwneud gweithgareddau Nadoligaidd yn y dosbarth tu allan.





Dyma Jac y postmon (Leo James Bl2)



Dyma Mair a Joseff (Ela Louise Evans ac Eithan Mortlock Bl2)





Dyma yr UD7 yn barod i berfformio eu sioe Nadolig "Cerdyn Nadolig". Da iawn chi blant. Perfformiadau arbennig o dda!



Ymarfer olaf y plant hyn yn y Capel Mawr.

SIOP CLWYD
33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Casetiau
Crynoddisgiau
a Chrefftau

"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"

Urdd

Annwyl Ddarllenwyr,

Ydych chi'n nabod rhywun yn eich ardal chi sy'n haeddu cydnabyddiaeth am eu gwaith arbennig gyda phobl ifanc?

Mae Urdd Gobaith Cymru yn croesawu enwebiadau ar gyfer Tlws John a Ceridwen Hughes Uwchaled 2018 – tlws a roddir i unigolyn sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i fywyd ieuenctid Cymru.

Os ydych chi'n adnabod unigolyn neu unigolion sydd wedi gwneud gwaith heb ei ail gyda phobl ifanc dros y blynyddoedd, anogir chi i'w henwebu. Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuenctid, cyn belled â'i fod yn waith wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc dros 11 oed, yn wirfoddol a thu allan i oriau ysgol. Rhaid i'r gwaith fod drwy gyfrwng y Gymraeg, neu gydag ieuenctid sy'n dysgu'r iaith. Gall hefyd fod gydag unrhyw fudiad ieuenctid.

Rhoddir Gwobr John a Ceridwen Hughes gan Dewi a Gerallt Hughes er cof am eu rhieni, John a Ceridwen, oedd yn weithgar iawn ym maes ieuenctid.

Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn mudiadau fel yr Urdd ac ni fyddai modd i ni gynnal na chynnig cymaint o gyfleoedd a phrofiadau i blant a phobl ifanc Cymru heb eu cefnogaeth.

Dyma gyfle felly i ddiolch ac i gydnabod gwaith unigolyn neu unigolion yn eich ardal chi sydd wedi rhoi o'u hamser er mwyn cefnogi ieuenctid Cymru, a hynny mewn unrhyw faes cyn belled â'i fod drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn croesawu enwebiadau rhwng nawr ac Ionawr felly byddwn yn argymell i bawb fynd amdani ac enwebu'r unigolion arbennig hynny yn eich ardal chi!

Gellir cael gafael ar y Ffurflen Enwebu drwy fynd i urdd.cymru/tlws neu drwy gysylltu gydag Enfys Davies ar 01239 652 163 neu enfys@urdd.org. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener, 19 Ionawr 2018.

Yn gywir iawn,

Dai Bryer a Sian Rogers
Cyfarwyddwyr Gwaith Maes ac Ieuenctid Urdd Gobaith Cymru

# Clwb Pêl-droed Dinbych

Wrth i gyfnod y Nadolig ein cyrraedd ni, mae Tîm Cyntaf Dinbych yn sefyll ar frig Cynghrair Huws Gray Cymru yn gyfartal ar bwyntiau gyda Chaernarfon ond fod gan Caernarfon wahaniaeth goliau gwell na Dinbych. Maent wedi ennill 9 o'u 10 gêm ddiwethaf sy'n profi eu bod nhw'n dîm i'w gwylio gyda'u perfformiadau arbennig yn ddiweddar.

Mae'r blaenwr Josh Davies o Landyrnog yn un o'r sgorwyr uchaf yn y gynghrair eleni gyda 13 gôl y tymor hwn hyd yma. Daeth dwy o'r goliau hyn o fuddugoliaeth drawiadol o 5-3 yn erbyn y gelynion lleol, CPD y Rhyl. Sgoriodd chwaraewr lleol arall, Kristian Pierce foli anhygoel o 25 llathen, gyda'r goliau eraill yn dod gan Warren Duckett a Joe Culshaw mewn gêm ble gwelwyd Dinbych yn dominyddu rhan helaeth ohoni. Yr hyfforddwr lleol, Dewi Llion oedd yn rheoli'r tîm y diwrnod hwnnw gan fod partner y rheolwr, Eddie Maurice-Jones, wedi rhoi genedigaeth i'w merch y noson flaenorol. Llongyfarchiadau iddynt ar groesawu aelod newydd i'r teulu ac i Dewi Llion ar y canlyniad arbennig yn erbyn y Rhyl.

Gweithiodd Dinbych yn hynod o galed wrth iddynt drechu Caersws o 3-2 mewn amodau tywydd ofnadwy yn Ninbych. Warren Duckett sgoriodd dwy o'r goliau gyda Kristian Pierce yn sgorio cic o'r smotyn hefyd.

Nid yw'r Ail Dîm wedi chwarae gêm yn ystod y mis diwethaf o ganlyniad i dywydd gwael ac un achos lle nad oedd Llangefni yn gallu cael digon o chwaraewyr i chwarae - sy'n siomedig iawn gan glwb mawr (yn honedig).

Yn y cyfamser, fe wnaeth Denbigh Development dan reolaeth Nick Hailes guro Hope Wanderers o 3-1, yna colli o 5-1 yn erbyn Henllan. Maent yng nghanol y gynghrair ar hyn o bryd ac yn gwneud cynnydd da, gyda'r mwyafrif o'r chwaraewyr yn fechgyn ifanc a lleol.

Derbyniodd y clwb y newyddion yn ddiweddar eu bod nhw wedi llwyddo i gyrraedd y meini prawf gan FA Cymru ar gyfer yr Ail Haen o bêl-droed i'r tymor nesaf. Golygai hyn y bydd pêl-droed Cynghrair Huws Gray Cymru yn parhau yn Central Park flwyddyn nesaf.

Wrth i'r clwb edrych i ddatblygu eto dros y blynyddoedd er mwyn cyrraedd Uwch Gynghrair Cymru, mae'r clwb angen mwy o wirfoddolwyr. Mae mwy a mwy o gyfleoedd yn codi i ymuno i helpu'r clwb ar ddyddiau gemau. Mae'r clwb hefyd yn edrych am Gyd-drefnwr Dyddiau Gemau a Swyddog Masnachol fydd yn helpu'r clwb gyda gweithgareddau codi pres. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag Iwan Jones ar 07788627819 neu Shon Powell ar 07768383266.

MALDWYN WILLIAMS

Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR

GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

# Clwb Rygbi Dinbych

Profodd taith hir y Tîm Cyntaf i Lanidloes yn fuddiol dros ben, gan ddod yn ôl i Ddyffryn Clwyd wedi ennill o 57 – 7 a cadw eu record 100% yn y Gynghrair, ac ar noson hynod oer trechwyd yr ymwelwyr o Abergele o 102 – 0 yn Rownd Gyntaf Cwpan Canolradd Gogledd Cymru, tlws a enillwyd gan Ddinbych ar ddiwedd y tymor diwethaf.
Doedd dim gemau i'r Ail Dîm dros yr un cyfnod.
Colli fu hanes yr Ieuenctid, o 27 – 12 ym Mae Colwyn yn y Gynghrair, ac wedyn o 55 – 7 mewn gêm gyfeillgar adref yn erbyn tîm cryf Nant Conwy.
Llwyddodd y Tîm Dan 10 i ennill yn Y Bala a teithiodd y Tîm Dan 9 i Langefni a churo'r tîm cartref a Bangor a chael gêm gyfratal yn erbyn Llandudno.
Chwaraewyd nifer o gemau yn erbyn Nant Conwy, gyda'r Tîm Dan 8 yn ennill, ond y timau Dan 9, 10, 12 a 13 i gyd yn colli, ond rhaid canmol ymdrech arwrol y Tîm Dan 12 yn erbyn tîm diguro'r Nant.
Yn dilyn y perfformiad addawol hyn daeth buddugoliaeth cynta'r tymor i'r tîm yn erbyn Abergele o 48 – 20, gyda'r Tîm Dan 9 yn colli gêm hynod agos yn erbyn Tîm Dan 9/10 yr un clwb.
Un o'r datblygiadau mwyaf calonogol yn ddiweddar ydy adfywiad y Tîm Dan 15, gyda chymorth Clwb Rygbi Glyn Ceiriog, dan yr enw "Glyn Bych"!
Mentrodd y tîm newydd dros y ffîn a cholli yn erbyn Croesoswallt cyn curo Bishop's Castle. Ar yr un diwrnod llwyddodd y Tîm Dan 10 i guro Abergele.
Am resymau gweddol amlwg yn ymwneud â'r tywydd, ni chwaraewyd unrhyw gemau ar ddydd Sadwrn Rhagfyr 10 na'r diwrnod canlynol.

********************************

Mae Amgueddfa Dinbych a'r Grŵp Archif Cymunedol wedi bod yn cynnal cyfres o "Nosweithiau o Siaradwyr am Chwaraeon", a'r olaf o'r sgyrsiau oedd yr un ar Glwb Rygbi Dinbych. Gyda chymorth lluniau ac eitemau o ddiddordeb, llwyddodd Tegid Phillips, Jeff Jenkins a Terry Bryer i ddiddanu cynulleidfa sylweddol, gyda Jeff yn canolbwyntio ar hanes sefydlu'r Clwb ym 1977 a Tegid a Jeff yn sôn am gemau nodedig.

Llun ar y cefn

********************************

***Blwyddyn Newydd Dda i holl gefnogwyr rygbi yn y dref a thu draw!***

**HEN LUNIAU**

Os oes gennych hen luniau ac yn dymuno eu rhannu gyda darllenwyr y Bigwn, o'ch teulu, cymdogion neu ffrindiau o'r ardal anfonwch ar ffurf ebost at ybigwn@hotmail.co.uk ac fe roddwn un llun bob mis yn Y Bigwn. Os yn bosib, byddai enwau, digwyddiad neu yr achlysur yn help i bawb adnabod y llun.

**"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"**


# Cymuned Gyfeillgar Dementia

Mae aelodau'r gymuned yn Ninbych wrthi'n gweithio'n galed i helpu'r dref i ennill cydnabyddiaeth fel Cymuned Gyfeillgar Dementia. Cynhelir y cyfarfodydd cyhoeddus cyntaf yn Hwb Dinbych ar **Ionawr 31ain am 2pm a 6pm** - ni ddylai'r cyfarfod barhau mwy nag awr. Y nôd yw egluro beth yw Cymuned Gyfeillgar Dementia a sut y gall trigolion Dinbych gymryd rhan.

Mae'r pwyllgor trefnu yn awyddus i gysylltu â phobl sy'n byw gyda dementia a allai fod yn rhan o'r cyfarfod cyhoeddus neu efallai ysgrifennu rhywbeth am eu profiad y gellid ei ddarllen allan yn y cyfarfod. Os ydych chi'n adnabod unrhyw un sydd â diddordeb, cysylltwch â Rebecca Bowcott, Age Connects ar 01745 508627.

Mae'r derbyn gofal a gwasanaethau yn eu mamiaith yn hanfodol i rai sy'n byw gyda dementia, felly mi fyddai'n dda cael mewnbwn siaradwyr Cymraeg wrth gynllunio'r hyn sydd ei angen yn Ninbych ar gyfer y rhaglen waith hon.

Mae Menter Iaith a Grŵp Cynefin wedi bod yn rhan o'r drafodaeth hyd yma, a'r gobaith yw gweld gymaint o bobl â phosib o'r gymuned yn cynnig syniadau ar ffyrdd i sicrhau bod Dinbych yn dref cyfeillgar i rai sy'n byw gyda dementia.



## Pwy 'di pwy yng Nghlwb Pêl-droed Dinbych?

## Glyn a Nansi Jones

Yn ystod un o gemau diweddar CPD Dinbych yn erbyn Caersws, cymerodd Pwyllgor y clwb y cyfle i wneud y diwrnod yn un arbennig i Glyn a Nansi, dau o gefnogwyr mwyaf ffyddlon y clwb.

Cyflwynodd Lywydd y clwb dlws i'r ddau a thusw o flodau i ddiolch iddynt am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac wrth iddynt ddathlu 60 mlynedd o briodas hefyd. Roedd y tlws wedi'i ysgythru â'r geiriau:

"I'n cefnogwyr mwyaf ffyddlon, Glyn a Nansi ar ddathliad pen-blwydd eich priodas o 60 mlynedd gan bawb o Glwb Pêl-droed Dinbych."

Mae'r cwpl yn byw yn Ninbych ac mae ganddyn nhw dri o blant, saith o wyrion ac wyresau a saith o or-ŵyrion a gor-wyresau gydag un arall ar y ffordd hefyd.

Mae Glyn, sy'n 84 mlwydd oed, a Nansi, sy'n 81 mlwydd oed wedi cefnogi Dinbych ers oedden nhw'n ifanc a, hyd heddiw, maen nhw'n dal i deithio i lefydd fel Porthmadog a Chaergybi i gefnogi. Os nad ydynt yn gallu cyrraedd gemau'r tîm cyntaf oddi cartref, byddant yn cefnogi'r ail dîm gartref. Maent yn helpu'r clwb mewn amryw o ffyrdd ar ddyddiau gemau, ac yn ystod yr haf, mae Glyn bob amser yn brysur yn peintio'r pyst yn barod am y tymor i ddod.

Cyn ymddeol, roedd Nansi yn weithiwr gofal a phlant tra gweithiodd Glyn gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans am 30 mlynedd. Roedd o hefyd yn gweithio fel gwirfoddolwr ar gyfer St. John's ac, ar un adeg, Glyn oedd yr unig wirfoddolwr oedd yn gallu dreifio! Wedi 13 mlynedd o weithio gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans, daeth yn Swyddog Orsaf ar ardal Dinbych, Rhuthun, Corwen a Cherrigydrudion a bu'n gweithio yno am 17 mlynedd arall cyn ymddeol.

Eglurodd Glyn iddo wylio ei gêm gyntaf o bêl-droed yn y 40'au hwyr yn fachgen 15 mlwydd oed. Roedd o wrthi'n beicio o Ddinbych i Landyrnog pan glywodd o dwrw a thorf fawr yn dod o gyfeiriad Trewen ac felly aeth i edrych. CPD Dinbych oedd yno yn chwarae yn erbyn Newmarket mewn gêm gwpan. O'r eiliad honno, roedd o wedi ei swyno gan bêl-droed. Dywedodd, "Roedd gemau'n wahanol iawn bryd hynny, gyda bws, weithiau hyd yn oed dau fws, yn teithio i bob gêm oddi cartref gyda thorf enfawr ym mhob un." Roedd o hefyd yn benderfynol iawn o beidio â methu unrhyw gêm, "Buaswn i'n mynd i siop Edwards ble roedd yna hysbysiad yn gofyn am enwau unrhyw un oedd eisiau lle ar y bws i wylio'r gemau. Fy enw i oedd un o'r cyntaf ar y rhestr bob tro!"

Mae'n cofio pan symudodd y Clwb i chwarae eu gemau yn ardal Ffordd Ystrad ac i'r cae sydd bellach yn cael ei adnabod fel y 'Rec'. "Roedd cannoedd o bobl yn dod i wylio'r gemau, yn enwedig gan nad oedd bobl leol bryd hynny yn tueddu i deithio i fynd i wylio'r clybiau mawr fel Lerpwl a Man.U."

Daeth Glyn yn aelod o Bwyllgor y Clwb am 6 mlynedd a bryd hynny, y pwyllgor oedd yn dewis y tîm. "Treuliom ni oes yn dadlau dros safleoedd y chwaraewyr. Roedd Popsey Griffiths yn chwaraewr ifanc iawn ar y pryd, ac roedd ei dad hefyd ar y pwyllgor, felly fyw i unrhyw un awgrymu ei fod wedi cael gêm sâl yr wythnos flaenorol! Ond wedi dweud hynny, roedd o'n chwaraewr arbennig."

Nid oedd gan y clwb reolwr yn ei ddyddiau cynnar ac felly'r pwyllgor i raddau helaeth oedd yn rhedeg y clwb. Dywedodd Glyn mai'r rheolwr gorau a welodd y clwb yn ei farn o oedd John Trefor Roberts o Fodfari a redodd y clwb pan oedd chwaraewyr fel Robin Argent a Campbell Roberts yn chwarae yn ystod y 70'au.

Ychwanegodd Glyn, "Diolch yn fawr iawn i'r clwb am y cyflwyniad a'r rhodd heddiw, roedd o'n gwbl annisgwyl. Roedd Nansi a minnau wrth ein boddau, ac roedd gweld Dinbych yn ennill hefyd yn wych."

Ymatebodd y Clwb, "Diolch yn arbennig i chi am eich holl gefnogaeth dros y blynyddoedd. Rydym ni wir yn ei werthfawrogi."

Llun ar y cefn

*HYSBYSEBION Y BIGWN*

4cm x 4cm: £3
9cm x 4cm: £6
9cm x 7cm: £10
Chwarter tudalen: £15
Hanner tudalen: £25
Tudalen lawn: £50

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â**
**Sian Jones**
**01745 812214**
russelljones9@talktalk.net

PyBj
GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

Jones & Graham
45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH
CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES
Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim
Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg
01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk





Jeff Jenkins, Terry Bryer, Bob Neale a Tegid Phillips



Clwyd Williams yn cyflwyno'r rhoddion i Glyn a Nansi.



Kristian Pierce sydd wedi sgorio ddwywaith yn ystod dwy gêm ddiwethaf Dinbych.





# Eisiau llenwi hosan 'Dolig?

Ar gael i'w brynu mewn siopau cymraeg lleol am £8 neu ebostiwch
thjones@btconnect.com

Elw tuag at elusennau cymreig






Sioe Nadolig ysgol Twm o'r Nant "Cerdyn Nadolig

***GOLYGYDD Chwefror: Berwyn Roberts, Felin Ganol, Fford Ystrad, Dinbych LL16 4RL 812672***

Cyhoeddwyd gan: Gymdeithas y Bigwn Cysodwyd gan Hywel Evans ac Argraffwyd gan Wasg Helygain